



Chwefror 3ydd 2019



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma. Criw Llantrisant, Llanharan a Meisgyn sy'n cynnal yr oedfa, gydag Eleri Huws wrth y piano. Mae croeso i bawb ymuno yn y cymundeb.

Yr Wythnosau Nesaf

Chwefror 10fed - Y Parchg Dyfrig Rees, Ysg Cyffredinol yr enwad, gyda Carwyn Lloyd Jones, a Bethan yn cyfeilio

Chwefror 17 - oedfa i'r teulu gyda Dafydd a Lowri Roberts gyda Sian yn cyfeilio

Chwefror 24ain Parchg Gethin Rhys gydag Eluned Davies Scott gydag Eleri yn cyfeilio

Mawrth 3ydd - Oedfa'r Pentrefi gyda Phentre'r Eglwys a Thonteg gyda Sian yn cyfeilio

Mawrth 10fed - Emlyn Davies gyda Carol Williams, gyda Rhiannon yn cyfeilio

Mawrth 17eg - Sul Teuluol gyda Wendy, Huw a Beth, gyda Sian yn cyfeilio

Mawrth 24ain - Y Parchg. Gethin Rhys, gyda Wyn Jones a Bethan yn cyfeilio

Merched y Tabernacl

Croeso i bawb, dydd Mercher 6 Chwefror 1.15 yp
Coleg Cerdd a Drama Caerdydd
Datganiad o ganeuon ac unawdau telyn o waith: Dilys Elwyn Edwards, Morfydd Llwyn Owen a Grace Williams.
Bydd y caffi ar agor trwy'r dydd.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Jen MacDonald a'r teulu cyfan ar golli Mike wedi salwch hir. Cynhelir ei angladd am ganol dydd, 12 Chwefror yn Eglwys Groesfaen.

Heddiw – Cyfarfod Agoriadol y Sioe Gerdd

Cofiwch am y cyfarfod pnawn heddiw am 4 o'r gloch yn y Ganolfan i ddechrau trefnu'r Sioe Gerdd, sef prif ddigwyddiad dathlu 150 pen-blwydd adeiladu'r Tabernacl yn 1870. Bydd angen tîm cryf o wirfoddolwyr i gynorthwyo Wyn Jones, y cyfarwyddwr, i lunio sgript a'r holl baratoadau eraill angenrheidiol cyn llwyfannu'r gwaith. Bydd cyfle yn y cyfarfod i dderbyn awgrymiadau ac i wyntyllu syniadau am ei natur a'i chynnwys. Er mwyn sicrhau llwyddiant y sioe apeliwn yn daer am eich presenoldeb yn y cyfarfod.

CYLCH CADWGAN

Nos Fercher 13 Chwefror 2019 am 8.00pm
ROWLAND WYNNE
yn siarad ar y testun
'Gwell Dysg na Golud. Gwron Cwmsychbant'
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd
wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio
tyfu gyda'n gilydd mewn
dealltwriaeth a gallu i ymarfer
dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

APÊL MADAGASCAR UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Fe roddodd yr Ysgol Sul a'r Twmiaid
ddechrau anrhydeddus i'n hymgyrch
ni drwy godi dros £500 yn eu Swper
Cynhaeaf, ac mae'r casgliad yn
tyfu'n raddol. Mae gyda ni tan mis
Mehefin i gyrraedd ein nod o £5,000.
Cofiwch am yr amlenni bach gwyn
gydag "Apêl Madagascar" arnyn
nhw. Gobaith yr Annibynwyr
Cymraeg ydy codi £200,000 i
gefnogi pedair elusen sy'n gweithio
gyda'r tlawd a'r anghenus ym
Madagascar, un o bedair gwlad
dlotaf y byd.

Mae gwybodaeth am waith yr
elusennau a llawer arall ar wefan y
capel: www.tabernacl.org

Dyfyniad yr Wythnos

Nid nôd Cristnogaeth yw dianc
rhag y byd hwn. Ei nôd yw caru'r
byd a cheisio ei newid er gwell.....
mae iachawdwriaeth yn fwy i
wneud â'r byd hwn na'r byd nesaf.
Marcus Borg, Diwinydd
1942-2015

Eglwysi Dementia-Gyfeillgar Siaradwyr:

Beti George a'r Dr. Zoe Morris
Williams
7 o'r gloch

Nos Iau 21ain Chwefror 2019
Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth
Estynnir croeso cynnes i bawb

ELUSENNAU 2019

Dyma'r elusennau y byddwn yn eu
cefnogi drwy gasgliad yr amlenni
brown eleni:

Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
Adref, Ysgol Tŷ Coch

Cymorth i Ferched Cymru & CRICA

Mae pedair o'r rhain yn lleol ac yn
gwerthfawrogi ein cefnogaeth gyson.
Mae CRICA yn ymchwilio i Glefyd Crohn
ac yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n
dioddef o'r cyflwr.

CYNHADLEDD WANWYN CRISTNOGAETH 21

*Ar 29 a 30 Mawrth yn Aberystwyth ar
y thema 'Dechrau o'r Newydd'. Bydd
cyflwyniad theatrig ar y nos Wener, a
darlithoedd ar y Sadwrn gyda Cynog
Dafis, Arwel Jones, Catrin Haf
Williams, Huw Williams a Gareth Wyn
Jones. Mae'r manylion llawn ar ein
gwefan:*

<http://cristnogaeth21.cymru/newyddion>

CASGLIADAU DILLAD A NWYDDAU

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref,
Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn
weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i
chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r
elusennau allweddol yma. Maen
nhw'n hynod werthfawrogol o'n
cefnogaeth.

